# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 11 Hydref 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw welliannau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru?(WAQ50455)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Edrychaf ymlaen at gael agor Rheilffordd Glynebwy yn ddiweddarach eleni. Cyhoeddais ar 8 Awst 2007 y byddaf yn rhoi £8 miliwn o arian cyfalaf yn 2008-09 i wella seilwaith Rheilffordd Cambrian rhwng Aberystwyth a'r Amwythig er mwyn gwella prydlondeb gwasanaethau trên yn sylweddol.

Mae sawl prosiect gwella seilwaith arall yn cynnal astudiaethau dichonoldeb technegol gan gynnwys adnoddau ychwanegol ar Gledrau'r Cymoedd, ailddyblu'r trac yng Nghyffordd Tre-gŵyr a Saltney a'n hymrwymiad Cymru'n Un i wella amseroedd teithio o'r gogledd i'r de.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau ynghylch y diffyg yn y gwasanaethau trên o Landeilo i Abertawe oddeutu amser cymudo a'r effaith y mae hyn yn ei chael o bosibl ar y traffig ar y ffyrdd?(WAQ50456)

**Ieuan Wyn Jones:** Mae Gwasanaeth Llinell Calon Cymru o Landeilo am 08:09 sy'n cyrraedd Abertawe am 09:08. Mae gan gonsortia'r awdurdod lleol a Fforwm Llinell Calon Cymru ddyheadau i gael trên ychwanegol bob dydd, ac rwy'n disgwyl cynigion manwl yn fuan, ond byddai'n rhaid i unrhyw wasanaethau ychwanegol weddu i'r adnoddau cyfyngedig ar gyfer llwybrau trenau ar y llinell.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru (a) sy'n cwblhau'r cymhwyster a (b) sy'n rhoi'r gorau i'r cwrs cyn ei orffen?(WAQ50449)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Nid oes data ar gyfer nifer y disgyblion sy'n rhoi'r gorau i'w haddysg ar gael ar gyfer dosbarthiadau 6 ysgolion, ond dylai hyn fod ar gael yn y dyfodol gan fod trefniadau casglu data wedi newid yn ddiweddar.

Ar gyfer Dosbarthiadau 6Ysgolion ym mlwyddyn academaidd 2005/06:

Nifer y disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a gofrestrodd i astudio un pwnc Safon Uwch neu UG neu fwy oedd 13,200. O'r rhain cafodd 12,620 (96%) o leiaf un Safon Uwch neu UG (gradd A-E).

Mae hyn yn golygu na wnaeth 580 (4%) o'r myfyrwyr a gofrestrodd i sefyll yr arholiad basio'r cwrs Safon Uwch neu UG yr oeddent wedi'i ddechrau. Am y rheswm a roddir uchod, nid yw hyn yn cynnwys disgyblion a ddechreuodd gwrs Safon Uwch neu UG ond na wnaethant ei gwblhau.

Oherwydd bod Safon Uwch yn cynnwys cymhwyster UG ar ôl blwyddyn o astudio, gall 'rhoi'r gorau i'w haddysg' fod yn derm camarweiniol. Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau astudio pedwar neu bump o bynciau UG gyda'r bwriad o ddilyn dim ond un neu ddau ohonynt hyd at gymhwyster UG. Mae hyn yn gwneud eu hastudiaeth yn fwy eang a hefyd yn galluogi iddynt ganfod eu gwir dalentau. Mae'r penderfyniad i arbenigo yn yr ail flwyddyn o astudiaeth Safon Uwch yn un cadarn ac mae'r synnwyr o wneud hynny yn cael ei adlewyrchu yn safon uchel llwyddiannau ein pobl ifanc yn eu harholiadau U2.

Ar gyfer Colegau Addysg Bellach ym mlwyddyn academaidd 2005/06:

Nid yw'r data ar gyfer nifer y myfyrwyr unigol sy'n astudio Safon Uwch mewn Addysg Bellach wedi'i gyhoeddi. Y wybodaeth agosaf at hyn sydd ar gael yw:

Nifer y pynciau Safon Uwch/UG/U2 a gwblhawyd gan ddysgwyr oedd 18,980 (75%)

Nifer y pynciau Safon Uwch/UG/U2 na chwblhawyd gan ddysgwyr oedd 6,387 (25%)

Nid oes data wedi'i gasglu sy'n galluogi i ddadansoddiad gael ei wneud o'r rhesymau dros beidio â chwblhau pynciau Safon Uwch unigol. Nid yw cwblhau yn y cyd-destun hwn yr un fath â phasio arholiad Safon Uwch. Ystyr cwblhau yma yw aros yn y Coleg i gwblhau'r cwrs Safon Uwch.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pan gyhoeddir y ffigurau ailgylchu a chompostio ar gyfer awdurdodau lleol ar 8 Hydref, a wnaiff y Gweinidog gynnwys manylion yr arian y mae pob awdurdod wedi'i dderbyn drwy'r Grant Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy ers i'r grant hwnnw gael ei gyflwyno?(WAQ50458)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Rwy'n trefnu i fanylion y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a gaiff ei dalu i bob Awdurdod Lleol ym mhob blwyddyn o 2001/02 i 2007/08 i gael eu cyhoeddi yn fuan ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Atodaf gopi er gwybodaeth.

**GRANT GWASTRAFF CYNALIADWY AWDURDODAU LLEOL**

| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod lleol** | | | | Gweler nodyn * | Gweler nodyn * | | | |
| Ynys Môn | 40,203 | 294,823 | 579,594 | 55,494 | 1,190,424 | 848,271 | 927,929 | 3,936,738 |
| Blaenau Gwent | 32,986 | 241,899 | 475,652 | 546,573 | 444,271 | 666,036 | 722,167 | 3,129,584 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 63,351 | 464,574 | 929,210 | 577,758 | 1,390,565 | 1,342,682 | 1,467,382 | 6,235,522 |
| Caerffili | 78,773 | 577,666 | 1,158,402 | 1,108,397 | 1,357,292 | 1,667,778 | 1,814,791 | 7,763,099 |
| Caerdydd | 153,670 | 1,126,917 | 2,249,835 | 1,275,299 | 3,441,518 | 3,230,258 | 3,563,308 | 15,040,805 |
| Sir Gaerfyrddin | 89,516 | 656,451 | 1,323,283 | 1,299,198 | 1,601,994 | 1,977,179 | 2,163,770 | 9,111,391 |
| Ceredigion | 46,003 | 337,355 | 685,397 | 685,264 | 854,332 | 1,053,689 | 1,154,354 | 4,816,394 |
| Conwy | 57,768 | 423,635 | 881,554 | 450,362 | 1,434,419 | 1,297,926 | 1,411,442 | 5,957,106 |
| Sir Ddinbych | 51,432 | 377,165 | 762,653 | 232,775 | 1,420,067 | 1,133,976 | 1,237,783 | 5,215,851 |
| Sir y Fflint | 69,985 | 513,222 | 1,055,426 | 1,011,233 | 1,244,452 | 1,531,072 | 1,670,538 | 7,095,928 |
| Gwynedd | 83,934 | 615,513 | 1,210,710 | 1,173,126 | 1,493,728 | 1,829,760 | 1,996,043 | 8,402,814 |
| Sir Fynwy | 43,599 | 319,727 | 632,138 | 596,526 | 743,193 | 920,064 | 1,011,789 | 4,267,036 |
| Merthyr Tudful | 25,846 | 189,535 | 380,506 | 363,764 | 442,232 | 540,707 | 586,906 | 2,529,496 |
| Casnewydd | 64,758 | 474,894 | 948,462 | 1,128,000 | 904,468 | 1,374,348 | 1,498,782 | 6,393,712 |
| Castell-nedd Port Talbot | 66,950 | 490,969 | 963,960 | 1,132,271 | 903,380 | 1,379,377 | 1,505,425 | 6,442,332 |
| Sir Benfro | 65,632 | 481,298 | 963,803 | 921,288 | 1,137,578 | 1,403,316 | 1,534,661 | 6,507,576 |
| Powys | 88,192 | 646,741 | 1,271,551 | 1,225,035 | 1,521,593 | 1,871,692 | 2,054,141 | 8,678,945 |
| Rhondda Cynon Taf | 111,330 | 816,417 | 1,614,277 | 1,512,675 | 1,856,939 | 2,276,690 | 2,481,833 | 10,670,161 |
| Abertawe | 109052 | 799,720 | 1,570,256 | 1,235,590 | 2,067,260 | 2,242,519 | 2,460,752 | 10,485,149 |
| Tor-faen | 41,184 | 302,012 | 608,785 | 585,368 | 715,337 | 874,943 | 953,637 | 4,081,266 |
| Bro Morgannwg | 56,534 | 414,583 | 848,965 | 804,672 | 995,506 | 1,236,562 | 1,359,422 | 5,716,244 |
| Wrecsam | 59,302 | 434,884 | 885,581 | 1,061,032 | 857,752 | 1,301,155 | 1,423,145 | 6,022,851 |
| **Cymru** | **1,500,000** | **11,000,000** | **22,000,000** | **18,981,700** | **28,018,300** | **32,000,000** | **35,000,000** | **148,500,000** |

* mae'r niferoedd gwirioneddol yn cynnwys trefniadau broceriaeth rhwng 2004-05 a 2005-06.